



Adroddiad Blynyddol 2018

Rhagair Gan Y Cadeirydd

Croeso i Adroddiad Blynyddol Menter Bro Morgannwg 2018.

Bu'n flwyddyn brysur unwaith eto, wrth i'r Fenter gynnal gweithgareddau lu er mwyn hyrwyddo ac ehangu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Fro.

Mae'r Fenter yn parhau i gynnal gweithgareddau i'r teulu, cynlluniau gofal plant yn ystod gwyliau ysgol, clybiau chwaraeon a digwyddiadau i oedolion yn y gymuned.

Mae'r plant ieuengaf wrth eu boddau â sesiynau fel Amser Stori a Wâc Welis. Mae'r cynlluniau gofal plant yn parhau'n boblogaidd. Felly hefyd y sesiynau Bwrlwm a gafodd eu cynnal ar draw Y Fro dros wyliau'r haf.

Testun balchder mawr oedd llwyddiant Gŵyl Fach y Fro 2018 eto eleni. Er gwaetha amodau gwyntog, fe ddaeth miloedd i fwynhau'r gerddoriaeth a'r gweithgareddau, ac mae'n wych fod ysgolion lleol yn cael llwyfan blynyddol i gael dangos eu doniau. Y nod nawr yw parhau i ddatblygu'r ŵyl gan geisio apelio at gynulleidfa hyd yn

oed yn ehangach. Mae'r ŵyl hefyd yn ffenest siop bwysig i'r Fenter wrth iddi geisio lledu ei neges a normaleiddio'r iaith.

Er mwyn parhau i chwilio am weithgareddau newydd ac ehangu'r amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnig, mae'r Fenter yn ddiweddar wedi gofyn i drigolion y Fro i rannu eu barn a chynnig syniadau. Bydd y rheiny'n cael eu hystyried wrth gynllunio gweithgareddau'r flwyddyn nesaf.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod 2018 - i bawb ddaeth i weithgareddau, ein arianwyr, noddwyr a'n partneriaid hael am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad, i aelodau'r bwrdd, ac yn bennaf oll, i'r swyddogion hynny o fewn y Fenter am eu gwaith diflino tu ôl y llenni.

Ymlaen i 2019!

Gwenllian Grigg
Cadeirydd Menter Bro Morgannwg

Cefndir y Fenter

Sefydlwyd Menter Bro Morgannwg ym mis Ionawr 2014, gyda'r nod o hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg. Mae Menter Bro Morgannwg yn Elusen Gofrestredig (1179555) a Chwmni Cyfyngedig Drwy Warant (8867706), gyda 12 o aelodau ar ein Bwrdd Rheoli sy'n craffu ar ein gwaith a darparu dull llywodraethu cadarn er mwyn sicrhau bod Menter Bro Morgannwg yn parhau i fod mewn sefyllfa gref i gynnal ein gwasanaethau'n llwyddiannus. Mae'r mudiad yn gymharol ifanc gydag 1 aelod o staff llawn amser, 1 aelod o staff rhan amser a 4 aelodau o staff sy'n cynorthwyo gyda'r gwaith ar y cyd gyda'u swyddogaethau i Fenter Caerdydd.

Prif nod y Fenter yw darparu profiadau gwerthfawr a chyfleoedd apelgar i blant, pobl ifanc ac oedolion wneud defnydd o'r iaith Gymraeg y tu allan i oriau ysgol ac oriau gwaith. Rydym yn rhyngweithio'n rheolaidd gyda'n cwsmeriaid i sicrhau bod llais y cwsmer wrth wraidd ein gwaith o gynllunio gwasanaethau, a'n bwriad ydy gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Bro Morgannwg a

nifer o bartneriaid Cymraeg a di-Gymraeg eraill yr ardal er mwyn codi statws yr iaith o fewn y Sir.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf rydym wedi;

- Trefnu dros 450 o weithgareddau unigol
- Ymgysylltu â dros 9,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth
- Cyflogi 28 o aelodau staff achlysurol
- Gweithio gyda 30 o bartneriaid ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector

Mae'r Fenter yn darparu gweithgareddau a digwyddiadau o fewn meysydd sy'n cynnwys Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc ac Oedolion.

Prif gyllidwyr Menter Bro Morgannwg yw Llywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chronfeydd y Loteri.

Swyddogion

Manon Rees-O'Brien

Ffion Rhisiart

Jén Dafis

Leah Dafydd / Gwenno Roberts (mamolaeth)

Llinos Williams / Lia Hawen

Nia Donnelly

Prif Weithredwr

Swyddog Datblygu

Swyddog Cymunedol

Swyddog Gofal a Theulu

Swyddogion Tafwyl

Swyddog Cyllid

Mae nifer o staff Menter Bro Morgannwg yn staff craidd Menter Caerdydd sy'n rhannu eu hamser er mwyn creu a chefnogi gwasanaethau yn y Fro.

Datganiad Cenhadaeth Menter Bro Morgannwg

Hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol ym Mro Morgannwg, gan sicrhau bod yr iaith yn dod yn rhan ganolog o fywyd yn y Fro, a bod pob trigolyn yn rhannu'r cyfrifoldeb am ei dyfodol a'i ffyniant.



Gwaith Partneriaeth

Mae gweithio ar y cyd gyda phartneriaid yn greiddiol wrth hyrwyddo a chryfhau safle'r Gymraeg ar draws cymunedau'r Fro. Mae gan y Fenter nifer o bartneriaid allweddol Cymraeg a di-Gymraeg ac rydym yn parhau i gyd-weithio er mwyn mynd i'r afael â phrif blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Un o brif partneriaid ac arianwyr y Fenter ydy **Cyngor Bro Morgannwg**. Byddwn yn parhau i gydweithio, cynorthwyo a chefnogi Cyngor Bro Morgannwg wrth iddynt wireddu eu gofynion statudol o sicrhau cyfleoedd teg i drigolion y Fro gymdeithasu drwy'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth a'r gwaith.

Mae Menter Bro Morgannwg wedi sefydlu ac yn arwain **Fforwm Iaith Gymraeg Bro Morgannwg** ers 2013, er mwyn dod â mudiadau a chymdeithasau sy'n gweithredu drwy'r iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg at ei gilydd, i rannu ein blaenoriaethau ac ystyried cyfleoedd newydd i gyd-weithio. Mae aelodau'r Fforwm Iaith yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Bro Morgannwg, Urdd Gobaith Cymru, Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin, Dysgu Cymraeg y Fro, Coleg Caerdydd a'r Fro, Merched y Wawr, Ysgolion cyfrwng Cymraeg y Sir a chynrychiolwyr o Gymdeithasau'r Fro. Byddwn yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau ac arferion da, ac mae

prosiectau fel **Clwb Ni a Gŵyl Fach y Fro** yn dangos bod partneriaid y rhwydwaith yn gweithio ar y cyd yn effeithiol.

Yn ystod 2018 rydym wedi datblygu ein partneriaeth gyda **Choleg Caerdydd a'r Fro**, gan lunio rhaglen o weithdai yn ystod gwyliau ysgol i blant 7-11 oed, sydd eleni wedi cynnwys Gwersylloedd Pêl-Rwyd a Gweithdai Gwallt a Harddwch. Rydym ni'n ffodus o allu manteisio ar adnoddau gwych ac arbenigedd staff y Coleg i gynig cyfleoedd cwbl newydd i blant a phobl ifanc y Fro. Mae'r sesiynau yn cael eu harwain gan ddarlithwyr y Coleg – gyda'r myfyrwyr hefyd yn cynorthwyo – ac mae hynny'n elfen bwysig o'r prosiect i ddangos y dilyniant posibl sydd mewn astudio, cymhwyso ac yna gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn cwrdd yn rheolaidd gyda Nicola Buttle, Cydlynnydd Cwricwlwm Cymreig y Coleg, er mwyn cydlynio prosiectau a digwyddiadau ar y cyd i godi ymwybyddiaeth am y Gymraeg ymysg staff a myfyrwyr a darparu cyfleoedd amrywiol i'r plant. Mae rôl gyda ni fel Menter i'w chwarae yn atgyfnerthu manteision dwyieithrwydd i fyfyrwyr, yn enwedig yn y byd gwaith, gan ein bod yn gallu cynnig cyflogaeth iddyn nhw o fewn ein gwasanaethau ni – er enghraifft mewn meysydd fel Gofal Plant a Chwaraeon.

Gwasanaethau i Deuluoedd

Hybu'r Gymraeg ymysg teuluoedd a phlant cyn oed ysgol yw rhai o brif dargedau Llywodraeth Cymru fel amlinellir yn 'Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg', ac mae cynnig amrywiaeth o weithgareddau i deuluoedd ymwneud â nhw trwy gyfrwng Cymraeg gyda'i gilydd yn rhan bwysig o wasanaeth y Fenter.

Trwy Gytundeb Fframwaith gyda Chyngor Bro Morgannwg, rydym wedi darparu:

- **4 sesiwn Amser Stori wythnosol** mewn partneriaeth â Llyfrgelloedd y Fro – gyda dros 100 o deuluoedd wedi mynychu sesiynau dros y flwyddyn ddiwethaf. Ym mis Medi, rydym wedi sefydlu sesiwn newydd yn Llyfrgell Gymunedol y Rhws, gan obeithio ymgysylltu â mwy o deuluoedd dros y misoedd nesaf a hybu mwy o weithgarwch Cymraeg yn yr ardal honno.
- **6 taith natur** mewn lleoliadau fel Parc Gwledig Porthceri, Traeth Penarth, Cosmeston a Thraeth Ynys y Barri – gyda 30 o deuluoedd wedi mynychu'r sesiynau yma yn ystod 2018.

- **Penwythnos Teulu i Langrannog** – digwyddiad cymdeithasol a phoblogaidd iawn sy'n rhoi cyfleoedd gwych i deuluoedd Cymraeg a di-Gymraeg eu hiaith ddod at ei gilydd am benwythnos o hwyl. Rydym yn trefnu'r penwythnos ar y cyd gyda Menter Caerdydd, ac mae'n braf croesawu mwy a mwy o deuluoedd o Fro Morgannwg bob blwyddyn.

Yn ystod 2018, mae'r Fenter hefyd wedi cefnogi sefydlu Clwb Ni – clwb gwaith cartref wythnosol yn y Barri sy'n hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ymysg teuluoedd trwy ddarparu ystod eang o weithgareddau Cymraeg i blant o bob oed tu allan i oriau ysgol, yn ogystal â chefnogi rhieni gyda chynyddu eu hyder a'u sgiliau ieithyddol. Mae'r prosiect wedi ei ariannu gan Gynllun Arloesi y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ac yn cael ei arwain gan Dysgu Cymraeg y Fro, ond mae nifer o bartneriaid Fforwm Iaith Bro Morgannwg hefyd yn ymwneud â'r prosiect, gan gynnwys Mudiad Meithrin a'r Urdd. Agorodd drysau 'Clwb Ni' am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2018, ac yn dilyn llwyddiant y peilot dros dymor yr haf, mae gennym sicrwydd y bydd y clwb yn parhau tan oleiaf Gorffennaf 2019.

“It's such a fantastic resource and is giving us the confidence to send our daughter to Welsh school. We're trying to learn Welsh as a family which would be impossible without all the opportunities and support.”

Gwasanaethau i Oedolion

Mae'r Fenter wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd amrywiol i siaradwyr Cymraeg rhugl, siaradwyr di-hyder a dysgwyr i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol. Mae arlwy o weithgareddau digwyddiadau fel yma'n allweddol i gefnogi a meithrin siaradwyr hyderus a normaleiddio'r Gymraeg o fewn cymunedau'r Fro.

Trwy Gytundeb Fframwaith gyda Chyngor Bro Morgannwg, rydym wedi darparu:

- **4 Bore Coffi wythnosol** i ddysgwyr Cymraeg.
- **Sesiwn sgwrsio misol** yn The Old Swan Inn (Llanilltud Fawr). Mae ail sesiwn misol wedi dechrau ym mis Hydref yn y Park Hotel (Y Barri), gyda'r bwriad o dargedu cyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg yr ardal a siaradwyr di-hyder sy'n chwilio am fwy o gyfleoedd cymdeithasol ac anffurfiol i ail-gydio yn yr iaith.
- **Sesiynau Yoga** mewn lleoliadau amrywiol – Capel Bethel (Penarth), Neuadd y Memo (Y Barri), Yr Hen Neuadd (Y Bontfaen) a Chanolfan Hamdden Llanilltud Fawr.

Yn ystod 2018, rydym hefyd wedi cydlynu cyfres o ddigwyddiadau **Gigs Bach y Fro**, gyda Noson Gomedï a nosweithiau o gerddoriaeth yng nghwmni Cleif Harwood, Hana Evans a Bryn Fôn. Rydym yn parhau i gynnal y gigs yma gyda chefnogaeth Cynllun Noson Allan.



“You provide fantastic opportunities for learners of all ages to practise the Welsh language in a friendly environment.”

Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc

Gyda 2,500 o blant yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg, a'r mwyafrif o'r rheiny yn dod o gartrefi di-Gymraeg, un o brif nodau'r Fenter yw i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol a hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg i blant y tu allan i oriau ac awyrgylch yr ysgol.

Trwy Gytundeb Fframwaith gyda Chyngor Bro Morgannwg, rydym wedi darparu:

- **10 o glybiau wythnosol** mewn partneriaeth ag Adran Chwaraeon yr Urdd. Mae rhain yn cynnwys gwersi nofio yng Nghanolfan Hamdden Penarth, Canolfan Hamdden y Barri a Hebron Hall, clybiau gymnasteg, athletau, pêl-rwyd a nifer o sesiynau aml-chwaraeon ar ôl ysgol. Mae'r clybiau yma i gyd yn cael eu harwain gan hyfforddwy profiadol a chymwys, gyda dros 200 o blant yr wythnos yn mynychu ac yn ymwneud â gweithgareddau hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg.
- **9 wythnos o Gynllun Gofal Gwyliau** yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Dyma'r unig ddarpariaeth gofal diwrnod cyfan cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg, ac felly mae'n cynnig cyfleoedd hollbwysig i rieni barhau i weithio ac i'r plant i barhau i ddefnyddio ac ymarfer eu

Cymraeg y tu allan i dymor yr ysgol. Rydym yn denu teuluoedd newydd yn ystod pob cyfnod o wyliau ysgol, ac wedi darparu 952 o lefydd gofal yn ystod 2018, gyda chyfartaledd o 22 o blant wedi mynychu pob diwrnod.

- **30 o sesiynau chwarae agored BWRLWM.** Dyma'r ail flwyddyn i ni gynnal sesiynau chwarae am ddim yn ystod gwyliau'r haf, gyda sesiynau bore a phrynhawn mewn parciau a lleoliadau gwahanol bob diwrnod o'r wythnos – Parc Fictoria (Y Barri), Bear Field (Y Bontfaen), Parc Belle Vue (Penarth), Parc Romilly (Y Barri) a Chlwb Rygbi Llanilltud Fawr. Roedd y ddarpariaeth hyd yn oed yn fwy poblogaidd eleni eto, gyda 337 o blant wedi mynychu oleiaf un sesiwn dros y cyfnod, a chyfartaledd o 28 o blant ym mhob sesiwn.
- **Gweithdai gwyliau** mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro. Yn ystod 2018 rydym wedi peilota rhaglen newydd o weithgareddau yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol – sydd wedi cynnwys Gweithdai Gwallt a Harddwch a Gwersylloedd Pêl-Rwyd. Mae'r ymateb i rhain wedi bod yn dda ac mae'n fwriad i ddatblygu syniadau newydd a chynnig mwy o weithdai amrywiol dros y flwyddyn nesaf.



“As a full time working single parent it is vital for me to have safe and affordable childcare for my children. It is also important to me that my daughter continues to practice her Welsh during the summer break. I would be lost without this childcare provision.”

Cymraeg Byd Busnes

Ar ddiwedd 2017 llwyddodd Menter Bro Morgannwg, mewn partneriaeth â Mentrau Iaith Cymru a Menter Caerdydd, i gael cefnogaeth swyddog prosiect newydd i weithio'n benodol gyda busnesau bach a chanolig ym Mro Morgannwg a Chaerdydd. Nod y prosiect yw datblygu cysylltiadau a phartneriaethau newydd gyda byd busnes a chynnig cyngor ymarferol ar sut i gyflwyno neu ddefnyddio mwy o Gymraeg o fewn eu busnesau.

Os ydych yn gwybod am unrhyw fusnesau lleol y byddai'n elwa o weithio gyda'r Swyddog Cymraeg Byd Busnes, peidiwch oedi i gysylltu â ni.

CYMRAG Byd Busnes
In Business

Gŵyl Fach Y Fro 2018

Gŵyl Fach y Fro yw'r ŵyl flynyddol a sefydlwyd gan Menter Bro Morgannwg yn 2015 i ddatlu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. Mae'r ŵyl wedi ei leoli ar Bromenâd Ynys y Barri ac mae'n rhan o becyn digwyddiadau haf y Cyngor.

Cynhaliwyd Gŵyl Fach y Fro eleni ar yr 16eg o Fehefin 2018, ac fe lwyddwyd i ddenu cynulleidfa o 4,000 o bobl. Mae hyn ychydig yn llai na'r 6,500 ddaeth i fwynhau yn 2017, ond gan ystyried y tywydd digon garw a gaethon ni yn ystod y diwrnod eleni, mae'r ymateb a gafwyd yn bositif a chalonogol.

Mae Gŵyl Fach y Fro yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac mae'n darparu plattform i'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. Rydym yn ymfalchiö yn y ffaith bod cymaint o'r partneriaid yn cyd-weithio a chyfrannu tuag at y digwyddiad, a hoffwn ddiolch yn fawr iddyn nhw i gyd am eu cefnogaeth.

Yn 2018 y prif nod oedd cynyddu proffil yr ŵyl ymhellach gan ddenu cynulleidfaoedd newydd, a chynnig mwy o weithgareddau ac arlwy cerddorol i greu naws gŵyl hwyliog gydag amserlen apelgar a chynhwysfawr sy'n apelio at bobl o bob oed.

Dyma rhai o uchafbwyntiau Gŵyl Fach y Fro 2018:

- Cynnydd yn y nifer o weithgareddau, gyda 50 o berfformiadau a gweithdai unigol yn rhan o'r ŵyl.
- Am y tro cyntaf eleni sefydlwyd ail lwyfan berfformio – Llwyfan Acwstig. Cafwyd ymateb gwych i gynnydd ac amrywiaeth yr arlwy cerddorol, ac yn sicr mae potensial i ddatblygu'r ardal newydd yma ymhellach dros y blynnydoedd.
- Rhaglen lawn o weithdai creadigol gan Green City Events, Cyfweithfa Gelf Caerdydd, Alternative Events a bŵth lluniau unigryw Daisy's Dressing Up Box.

- Perfformiadau stryd gan griw talentog 'Kitsch N Sync' – ar y thema lan y môr. Roedd tair ohonynt wedi gwisgo fel môr-forwynion ac yn crwydro ardal yr ŵyl a'r creigiau ar y traeth yn rhyngweithio a thynnu lluniau gyda chynulleidfa'r ŵyl. Fe wnaeth yr elfennau theatr stryd newydd yma weithio'n dda yn denu llawer o sylw a gwneud i bawb wenu gyda'u perfformiadau egniol ac unigryw.x

- Oherwydd y cynnydd mewn niferoedd llynedd roedd ychydig o giwiau yn yr Ardal Bwyd a Diod, felly erbyn Gŵyl Fach y Fro 2018 fe wnaethom ychwanegu un stondin bwyd ac un bar ychwanegol er mwyn ceisio cwrdd â'r galw cynyddol. Mae'n bwysig i ni ein bod yn parhau i gydweithio gyda busnesau a chynhyrchwyr lleol, ac yn arlwy'o'r ŵyl eleni roedd Ffwrnes Pizza, Grazing Shed a Bay 5 Coffee, gyda Cavavan a Myfanwy the Tin Can Filly yn gweini amrywiaeth o ddiodydd.

- Roedd y stondinau crefft yn ychwanegiad poblogaidd i'r ŵyl yn 2016, ac roeddwn yn falch i allu cynyddu unwaith eto ar y nifer o stondinau eleni. Dyma restr o stondinwyr Gŵyl Fach y Fro 2018: Zac and Bella, Melys, Joey Banas, Stwff, Tast Natur, Welsh Girl Problems, The Goodwash Company, Michael Goode, Bethan Cuddihy, Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin a Dysgu Cymraeg y Fro.

- Yn ogystal â staff y Fenter, roedd 16 o wirfoddolwyr yn helpu ar y diwrnod wrth gyfeirio pobl o fewn yr ŵyl a chodi ymwybyddiaeth bellach trwy rannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd ar hyd y promenâd.

- Llwyddwyd i ddenu nifer cadarnhaol o ymwelwyr i fwynhau'r ŵyl ar Ynys y Barri, ac wrth ddadansoddi ymatebion yr holiadur gwerthuso, rydym yn amcangyfrif bod hyd at draean o fynychwyr yr ŵyl eleni yn byw y tu allan i Fro Morgannwg.

“Gŵyl arbennig iawn i'r teulu i gyd, addas i blant ifanc a'r rhieni yn dal i fwynhau. Lleoliad hyfryd iawn.”

“This is an excellent event, and it has developed spectacularly over its first four years – a huge asset to Welsh language and culture in the Vale.”

